# PRESENOLDEB UWCH BLACKBOARD

**Gwybodaeth Gyffredinol**

- Ffactorau dylunio megis lliw, maint testun, rheoli sain a fideo, a'r tagiau alt yn adlewyrchu ystyriaethau hygyrchedd cyffredinol.
- Y modiwl yn adlewyrchu polisïau dysgu ac addysgu'r adran / Athrofa'n gyson.
- Cyhoeddiadau neu fecanweithiau priodol eraill yn cael eu defnyddio i gyflwyno gwybodaeth i fyfyrwyr yn brydlon.

**Strwythur y Cwrs Blackboard**

- Mae digonedd o gyfleoedd i ryngweithio ar-lein ac mewn cyd-destunau wyneb i wyneb fel y bo'n briodol, gan gynnwys rhyngweithio myfyriwr-i-fyfyriwr. Gall hyn gynnwys defnyddio offer megis byrddau trafod, blogiau neu wicis.
- Mae canllawiau ar gael sy'n egluro faint y disgwylir i'r myfyrwyr gyfrannu a rhyngweithio ar-lein (h.y. nifer y rhyngweithiadau ar-lein) ac ansawdd y cyfathrebu (e.e. beth sy'n gwneud ateb "da").
- Os cânt eu defnyddio, bydd yr hyfforddwr yn cymryd rhan weithredol yn y gweithgareddau cyfathrebu ar-lein gan gynnwys rhoi adborth i fyfyrwyr.
- Mae gan y dysgwyr gyfle i roi adborth dienw i'r hyfforddwr am bob agwedd ar-lein o'r modiwl. Caiff y mecanwaith ar gyfer hyn ei egluro yn y modiwl.
- Darperir dolenni i ddeunyddiau cymorth ar gyfer unrhyw offer a ddefnyddir yn y modiwl. Gallai hyn gynnwys dolenni i gwestiynau cyffredin y Gwasanaethau Gwybodaeth, canllawiau fideo. Dylai'r adnoddau hyn ymddangos yn yr ardal gynnwys lle defnyddir yr offer.

**Gwybodaeth am y Modiwl**

- Dylai'r nodau a'r amcanion ar gyfer yr holl weithgareddau dysgu ar-lein gael eu nodi'n glir yn y disgrifiad neu'r cyfarwyddiadau.
- Darperir taith o'r modiwl (gweler http://nexus.aber.ac.uk/xwiki/bin/view/Main/guides+-+Blackboard am enghreifftiau).

**Cynnwys**

- Caiff technolegau eu defnyddio'n greadigol mewn ffyrdd sy'n rhagori ar gyfarwyddyd traddodiadol, athro-ganolog.
- Caiff y cynnwys ei gyflwyno gan ddefnyddio amrywiaeth o fecanweithiau a'i gyfoethogi gan elfennau gweledol a/neu glywedol, gan gynorthwyo dulliau dysgu amrywiol: sain, gweledol, a seiliedig ar destun, gan gynnwys elfennau rhyngweithiol pan fo'n briodol.

- Mae deunyddiau’r cwrs yn defnyddio fformatau ffeil safonol, er enghraifft Microsoft Office, PDF, MP3, MP4, i’w gwneud hi’n haws i’r myfyrwyr eu defnyddio.
- Disgwylir meddwl o radd uwch (e.e. dadansoddi, datrys problemau, neu fyfyrdod beirniadol) gan ddysgwyr a chaiff hyn ei egluro gan enghreifftiau neu fodelau.